# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Medi 2023

Amser: 09.32 - 12.14

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13472

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Paul Davies AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Luke Fletcher AS<br>Vikki Howells AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Buffy Williams AS |
| Tystion: | James Gibson-Watt, Cyngor Sir Powys<br>Kellie Beirne, Bargen Ddinesig: Prifddinas-Ranbarth Caerdydd<br>Jonathan Burnes, Swansea Bay City Deal<br>Clive Davies, Cyngor Sir Ceredigion<br>Carwyn Jones-Evans, Cyngor Sir Ceredigion<br>Councillor Dyfrig Siencyn, Cyngor Gwynedd<br>David Simpson, Cyngor Sir Penfro |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Hedd Vaughan-Evans, Uchelgais Gogledd Cymru<br>Nicola Williams, Cyngor Sir Powys |
| Staff y Pwyllgor: | Lara Date, Ail Glerc<br>Evan Jones, Dirprwy Glerc<br>Karen Williams, Swyddog Cymorth y Pwyllgor<br>Sara Moran, Ymchwilydd<br>Ben Stokes, Ymchwilydd<br>Gareth Thomas, Ymchwilydd<br>Katy Orford, Ymchwilydd<br>Nia Moss, Ymchwilydd<br>Lucy Morgan, Ymchwilydd |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

2.1 Cyfarfod y Pwyllgor Gweinyddol – 17 Mai 2023

2.2 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2023-24

2.3 Gwaith dilynol ar ôl sesiwn graffu gyffredinol ar waith y Gweinidog ar 21 Mehefin 2023

2.4 Gwaith dilynol ar ôl sesiwn graffu gyffredinol ar waith y Gweinidog ar 21 Mehefin 2023

2.5 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig

2.6 Triniaethau Hadau Indrawn Porthiant

2.7 Gweithgynhyrchu yng Nghymru – ymchwiliad undydd – 8 Mehefin 2023

2.28 Amserlen Ddrafft Cyllideb 2024-25

2.9 Gwasanaeth Rhagnodi Electronig Gofal Sylfaenol

2.10 Y Bil Bwyd (Cymru): Ymateb i argymhellion adroddiad y Pwyllgor

2.11 Y DU/Y Swistir: Cytundeb ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol

2.12 Gyrwyr HGV yng Nghymru

2.13 Ymchwiliad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol: Gallu Datganoli yn Whitehall

2.14 Cynllun Natur y Bobl

2.15 Cynllun Dychwelyd Ernes

2.16 Model Gweithredu Targed y Ffin

2.17 Cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach ar 7 Medi

2.18 Memorandwa Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

## 3 Bargen Twf Canolbarth Cymru a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y panel.

## 4 Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Bargen Twf Gogledd Cymru

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y panel.

4.2 O dan Reol Sefydlog 17.47, gwnaeth y Cadeirydd atal y trafodion dros dro i ddatrys mater technegol. Cafodd y trafodion eu hatal dros dro o 10:58 i 11:01.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y Cynnig i wahardd y cyhoedd am weddill y cyfarfod.

## 6 Papur cwmpasu: Ymchwiliad i ynni niwclear ac economi Cymru

6.1 Trafododd y Pwyllgor y papur a chytunwyd ar gwmpas a dull gweithredu ar gyfer ymchwiliad i Ynni Niwclear ac economi Cymru.

## 7 Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023: Diweddariad

7.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gyfraith yr UE a ddargedwir a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddi wneud yr hyn a ganlyn:

- Cadarnhau a oes unrhyw gynlluniau'n cael eu datblygu i ddefnyddio'r pwerau newydd a ddarperir i Weinidogion Cymru gan y Ddeddf;
- Cadarnhau a yw'n ymwybodol o unrhyw gynlluniau gan Lywodraeth y DU i ddefnyddio'r pwerau newydd mewn meysydd datganoledig, neu mewn meysydd a gadwyd yn ôl a fydd yn effeithio ar Gymru; a
- Rhannu copi o'i dadansoddiad diweddaraf o gyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen 1 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn.

## 8 Diweddariad ynghylch cytundebau masnach: Haf 2023

8.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am Gytundebau Masnach a chytunwyd i wneud yr hyn a ganlyn:

- Ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn gofyn am ei dadansoddiad o'r hyn y mae Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel yn ei olygu i Gymru.
- Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ei dogfen safbwynt yn manylu ar ei dadansoddiad o aelodaeth Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel; a
- Ystyried cymryd camau pellach ar ôl cael y ddogfen, gan gynnwys monitro parhaus o effeithiau disgwyliedig y cytundeb, cael tystiolaeth rhanddeiliaid a rhannu gwybodaeth â phwyllgorau cyfatebol yn seneddau eraill y DU.

## 9 Trafod y Flaenraglen Waith: Gwanwyn 2024

9.1 Trafododd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith ar gyfer Gwanwyn 2024 a chytunodd arni.

## 10 Ymweliad â Brwsel: Papur opsiynau

10.1 Trafododd y Pwyllgor yr opsiynau a phenderfynodd roi ystyriaeth bellach i amseriad ymweliad.